Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Cylch Gorchwyl — Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rheoleiddiol

## Cyfansoddiad

Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen i'r Bwrdd a adwaenir fel y **Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rheoleiddiol** (y Grŵp Gorchwyl a Gorffen) wedi cael ei sefydlu gyda'r Cylch Gorchwyl a Rheolau Sefydlog canlynol, y cytunwyd arnynt trwy benderfyniad gan y Bwrdd dyddiedig 18 Ebrill 2024. Cafodd y cylch gorchwyl hwn ei ddiweddaru a'i gadarnhau yn dilyn cyfarfod y Grŵp ar 28 Mehefin 2024.

## Diben a Chyfrifoldebau

Dyletswyddau penodol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yw:

- Craffu ar gynlluniau gweithrediaeth Medr ar gyfer datblygu'r system reoleiddio newydd, gan gynnwys y Gofrestr o ddarparwyr addysg uwch;
- Rhoi cyngor i staff Medr ynghylch datblygu egwyddorion, polisïau ac amodau rheoleiddio, a dyluniad y fframwaith rheoleiddio ar y cyfan;
- Rhoi cyngor i staff Medr ynghylch cyfathrebu ac ymgynghori ar gynigion rheoleiddiol;
- Rhoi cyngor i Fwrdd Medr ynghylch yr holl faterion sy'n ymwneud â'r prosiect datblygu rheoleiddiol a risgiau cysylltiedig.

## Rheolau Sefydlog

Bydd Rheolau Sefydlog Pwyllgorau Medr yn berthnasol.

## Aelodaeth a Phresenoldeb

Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys dau aelod Cyffredin o Fwrdd Medr a hyd at dri aelod cyfetholedig, nad ydynt ar Fwrdd Medr.

*Aelodau – Bwrdd Medr*

- Un aelod o Fwrdd Medr i gadeirio'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen
- Un aelod arall o Fwrdd Medr

*Aelodau - Annibynnol*

Hyd at dri aelod annibynnol gan gynnwys, lle y bo'n bosibl:

- Un aelod â phrofiad o faterion rheoleiddiol mewn addysg
- Un aelod â phrofiad o faterion rheoleiddiol mewn sector arall
- Un aelod â phrofiad perthnasol o fyd addysg uwch

Er y bwriedir ymgysylltu â'r sector wrth ddatblygu'r system reoleiddio, <u>ni fydd</u> aelodaeth annibynnol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys unrhyw un sydd wedi bod yn aelod o

staff neu'n llywodraethwr darparwr addysg drydyddol yng Nghymru yn y 18 mis diwethaf er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau.

*Staff Medr:*

Bydd yr aelodau canlynol o staff Medr yn bresennol fel arfer ym mhob un o gyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen:

- Cyfarwyddwr Rheoleiddio
- Pennaeth Rheoleiddio a Chynllunio
- Uwch Reolwr Rheoleiddio a Sicrwydd

Bydd aelodau eraill o staff Medr yn bresennol yn ôl y gofyn.

## Cworwm

Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yw dau aelod, gan gynnwys y Cadeirydd neu ei enwebai.

Os nad oes cworwm yn bresennol yn un o gyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, bydd y Cadeirydd neu ei enwebai'n datgan nad oes cworwm yn bresennol ac yn penderfynu bod y cyfarfod yn cael ei ohirio. Bydd ystyriaeth i unrhyw fater nas trafodwyd yn cael ei gohirio tan ddyddiad ac amser sydd i'w pennu gan y Cadeirydd neu tan gyfarfod nesaf y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

## Cyfarfodydd

Fel arfer bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn, gyda chyfarfodydd pellach yn cael eu cynnal yn ôl y gofyn. Gellir cynnal cyfarfodydd yn rhithwir.

## Awdurdod

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i awdurdodi i gael cyngor proffesiynol annibynnol os yw'n ystyried bod hyn yn angenrheidiol, yn unol â Rheolau Sefydlog Pwyllgorau.

## Adroddiadau

Bydd cofnodion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael eu cylchredeg i gyfarfod nesaf y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, a bydd crynodeb o'r camau gweithredu'n cael ei ddarparu ar gyfer Bwrdd Medr yn dilyn eu cymeradwyo gan Gadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

## Adolygu

Bydd Cylch Gorchwyl ac aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael eu hadolygu'n flynyddol a bydd unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Medr i gael

eu cymeradwyo. Bydd y Grŵp yn rhedeg tan 30 Awst 2027 oni chytunir fel arall gan Fwrdd Medr.

## Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Bydd y prosiect datblygu rheoleiddiol a'i oruchwyliaeth gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael eu cynnal yng nghyd-destun Dyletswyddau Strategol Medr ac yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a'r pum ffordd o weithio:

- Dull hirdymor – Pwysigrwydd taro cydbwysedd rhwng anghenion byrdymor ar y naill law a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd ar y llaw arall
- Integreiddio – Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar ei amcanion, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill
- Cynnwys – Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â buddiant mewn cyrraedd y nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu
- Cydweithio – Gweithio ar y cyd gydag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant
- Atal – Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion

Cylch Gorchwyl wedi'i adolygu ddiwethaf: **18/06/2025**